

Gwybodaeth am geisiadau'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth

Er mwyn cefnogi ymgeiswyr sydd â diddordeb mewn gwneud cais i'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth, rydym yn darparu'r rhestr yma o gwestiynau. Mae hyn er mwyn cyfeirio yn unig, bydd angen i chi wneud cais ar-lein o hyd. Sylwch nad yw'n bosibl i chi gadw'r ffurflen ar-lein, felly bydd angen i chi ei llenwi mewn un go a'i chyflwyno. Felly efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi baratoi eich atebion gan ddefnyddio'r cwestiynau cyfeirio isod ac arbed eich atebion all-lein.

Eich sefydliad a prosiect

Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i gysylltu eich cais â'ch prosiectau blaenorol neu gyfredol gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

1. Enw'r sefydliad

2. Rhif cyfeirnod prosiect diweddaraf Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol: gallwch ddod o hyd i gyfeirnod y prosiect ar negeseuon e-bost o'r Gronfa. Enghraifft fformat yw HG-20-00034

Manylion cyswllt

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym ni beth yw enwau a gwybodaeth gyswllt y bobl sy'n gwneud cais am yr arian yma

3. Manylion cyswllt: enw'r rhif cyswllt 1

4. Manylion cyswllt: cyfeiriad e-bost rhif cyswllt 1

5. Manylion cyswllt: rhif ffôn y rhif cyswllt 1

6. Manylion cyswllt: enw'r rhif cyswllt 2

7. Manylion cyswllt: cyfeiriad e-bost rhif cyswllt 2

8. Manylion cyswllt: rhif ffôn y rhif cyswllt 2

Manylion y sefydliad

Defnyddiwch yr adran yma i ddweud wrthym am eich sefydliad

9. A yw eich sefydliad yn elusen gofrestrdig?

10. Rhowch rif elusen gofrestrdig, os atebwyd 'ydy' uchod

Costau

Defnyddiwch yr adran yma i ddweud wrthym am y costau hanfodol rydych chi'n gwneud cais amdany'n nhw

11. Beth yw cyfanswm yr arian yr ydych yn gwneud cais amdano o'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth?

Dywedwch wrthym a ydych wedi cynnwys TAW - dylech ei heithrio o'r costau os gallwch ei hawlio'n ôl.

12. A yw'r swm yma'n cynnwys TAW?

Ydy/Nac ydy

13. Rhestrwch y costau sy'n cyfateb i'r cyfanswm yr ydych yn gwneud cais amdano, gan gynnwys lle'r ydych yn gofyn am TAW yn erbyn pob ffigur

(terfyn gair o 100)

Eich arian

Yn yr adran yma, rydym yn chwilio am fanylion am statws ariannol presennol eich sefydliad – yn enwedig am y cyfnod a'r costau rydych yn gwneud cais amdanynt.

14. Yn eich blwyddyn lawn ddiwethaf o weithredu, pa % (canran) o'ch incwm a ddeilliodd o ffynonellau a enillwyd yn hytrach na grantiau refeniw neu godi arian arall a gefnogodd eich gweithrediadau o ddydd i ddydd?

Nodwch y ffigur canrannol heb y %, er enghraifft, 30 ar gyfer 30% o incwm a enillir yn cynnwys tâl mynediad, adwerthu, digwyddiadau, llogi ystafell. Os oes gennych is-gwmni masnachu, cofiwch gynnwys yr incwm yma yn eich cyfrifiad cyffredinol. Dywedwch wrthym am unrhyw incwm a enillir na allech ei ddefnyddio i gefnogi gweithrediadau o ddydd i ddydd, fel enghraifft.

15. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol a ydych yn disgwyl cael unrhyw gyllid grant refeniw nad yw'n benodol i brosiect ac y gallwch ei ddefnyddio i gefnogi gweithrediadau o ddydd i ddydd?

Ydym/Nac ydym/Ddim yn gwybod

16. Dywedwch wrthym am yr arian yma, os atebir 'ydym' uchod

17. A ydych wedi ymgeisio, neu a ydych yn bwriadu gwneud cais am unrhyw gynlluniau COVID-19?

• Cymorth gan y llywodraeth ganolog, er enghraifft, cynlluniau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi • cymorth gan ddosbarthwyr loteri eraill • cymorth gan sefydliadau eraill, er enghraifft, ymddiriedolaethau, awdurdodau lleol os ydych wedi gwneud cais, faint yr ydych wedi gwneud cais amdano a phryd y byddwch yn gwybod beth yw'r canlyniad?

Ydyn/Nac ydyn

18. Os 'ydyn', dywedwch wrthym faint yr ydych wedi gwneud cais amdano a phryd y byddwch yn gwybod beth yw'r canlyniad

(terfyn gair 100)

19. Gan nad yw manylion rhai cynlluniau ariannu sy'n gysylltiedig â'r cynllun COVID-19 yn glir eto, dywedwch wrthym am unrhyw bryderon sydd gennych am eich cymhwystra ar eu cyfer, amseriad derbyn grantiau a sut yr ydych yn bwriadu pontio unrhyw fylchau o ran yr amseriad yma

(terfyn gair 200)

20. Dywedwch wrthym am unrhyw gronfeydd buddsoddi sydd gan eich sefydliad, gan gynnwys y prisiad diwethaf a'r diben

(terfyn gair 50)

Mae hyn er gwybodaeth, deallwn y gall y cronfeydd hyn fod yn gyfyngedig ac nid ydym yn disgwyl i chi werthu ar fyr rybudd os nad ydych yn dymuno.

21. A oes gennych bolisi wrth gefn ffurfiol neu bolisi i ddal arian at ddibenion penodol?

Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod

22. Os oes, faint o arian sydd ar gael sydd gennych yn y cronfeydd wrth gefn?

23. Os oes, dywedwch wrthym yn gryno am y polisi

(terfyn gair 200)

24. Os oes, sawl mis o gronfeydd wrth gefn ydych chi'n eu dal ar hyn o bryd? Rhowch y Rhif

25. A oes gennych unrhyw gostau gweithredu sefydlog sylweddol sy'n benodol i'r dreftadaeth yr ydych yn gofalu amdani?

Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod

26. Os oes, rhowch amcangyfrif o gyfanswm y costau hyn yn y flwyddyn ariannol gyfredol (20/21).

27. Beth sydd angen i chi ei wneud yn awr i atal eich sefydliad rhag bod mewn perygl? Beth yr ydych eisoes wedi'i wneud i leihau eich gwariant? Beth arall ydych chi'n bwriadu ei wneud?

28. Faint o gronfeydd wrth gefn am ddim a chyllid arall sydd ar gael ar unwaith i gefnogi gweithrediad tymor byr y sefydliad? Nodwch y swm

29. Pa mor hir y disgwylir i hyn bara, mewn misoedd?

Dylech anwybyddu cronfeydd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer prosiectau yr ydych wedi ymrwymo iddynt yn gytundebol, ac ystyried unrhyw ostyngiad yn y costau yr ydych eisoes wedi'u rhoi ar waith.

30. A yw eich sefydliad wedi wynebu unrhyw bryderon sylweddol o ran cynaliadwyedd yn 2019 neu yn gynnar yn 2020 cyn i effaith COVID-19 godi?

(terfyn gair 100)

Os oes, rhowch grynodeb. Yn y cyd-destun yma, rydym yn golygu pryderon ynghylch a allech fod mewn perygl o gau yn ystod y 2 flynedd nesaf oni bai eich bod yn sicrhau cyllid ychwanegol neu'n gweithredu cynllun ad-drefnu.

31. Dywedwch wrthym am natur y gwaith y mae eich sefydliad yn ei wneud a sut rydych yn cyfrannu at ein canlyniadau o ran adfywio economaidd, cynhwysiant a llesiant.

(terfyn gair 200)

32. Ym mhle y mae eich sefydliad?

Mae gan y Gronfa swyddfeydd ledled y DU, os nad ydych yn siwr ble rydych wedi'ch lleoli, mae map yma: <https://www.heritagefund.org.uk/cy/node/107809>



Yr Alban/Cymru/Gogledd Iwerddon/Lloegr: Llundain a'r De/Lloegr: Canolbarth a
Gorllewin/Lloegr: Gogledd/Ddim yn siŵr

Adran Datganiad

33. Datganiad

a) Telerau grant: rhaid i chi ddarllen y telerau grant safonol ar gyfer y rhaglen hon ar ein gwefan. Drwy gwblhau'r datganiad yma, rydych yn cadarnhau bod eich sefydliad yn derbyn y telerau hyn. Ar gyfer prosiectau partneriaeth, rhaid i bob partner gadarnhau ei fod yn derbyn y telerau grant safonol drwy ychwanegu cyswllt ar ddiwedd y datganiad.

b) rhyddid gwybodaeth a diogelu data rydym wedi ymrwymo i fod mor agored â phosibl. Mae hyn yn cynnwys bod yn glir ynghylch sut rydym yn asesu ac yn gwneud penderfyniadau ar ein grantiau a sut y byddwn yn defnyddio eich ffurflen gais a dogfennau eraill a roddwch i ni. Fel sefydliad cyhoeddus Mae'n rhaid i ni ddilyn yr holl gyfreithiau a Rheoliadau Diogelu Data, i gynnwys Cyfarwyddbau a Rheoliadau Senedd Ewrop sy'n gymwys ac mewn grym o bryd i'w gilydd (y 'ddeddfwriaeth diogelu data'). Fel y diffinnir gan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (sy'n gweinyddu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol) yn rheolydd data. Fel rhan o'r broses ymgeisio byddwn yn casglu eich enw a'ch safle yn y sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli. Efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gydag un o'r ymgynghorwyr ar ein cofrestr o wasanaethau cymorth os cânt eu penodi i'ch cefnogi ar eich prosiect. Nid ydym yn trosglwyddo eich data i unrhyw drydydd partïon sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r UE. Mae ein polisi preifatrwydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer ein swyddog diogelu data. Gellir dod o hyd iddo ar wefan Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

34. Data a Rhyddid Gwybodaeth

Pan fyddwch yn llenwi'r datganiad ar ddiwedd y ffurflen gais, rydych yn cadarnhau eich bod yn deall ein cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac nad oes gennym unrhyw wrthwynebiad i ni ryddhau adrannau eich sefydliad a'ch prosiect ar y ffurflen gais i unrhyw un sy'n gofyn i'w gweld unwaith y bydd eich cais wedi cwblhau'r broses asesu. Os oes unrhyw wybodaeth yn yr adrannau hyn ar y ffurflen nad ydych yn dymuno iddi fod ar gael i'r cyhoedd ei gweld, esboniwch eich rhesymau isod

35. Diogelu Data ac Ymchwil

Byddwn yn ystyried y rhain pan fyddwn yn ymateb i unrhyw gais am fynediad i'r adrannau hynny. Efallai y gofynnir i ni hefyd ryddhau gwybodaeth arall yr ydych yn ei darparu i ni. Byddwn yn ymateb i'r ceisiadau hyn ar ôl ystyried eich hawliau a'ch

disgwyliadau o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Yn yr achosion hynny, byddwn bob amser yn ymgynghori â chi yn gyntaf. Ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod yr ydych yn ei ddioddef o ganlyniad i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. • Penderfynu a ddylid rhoi grant i chi. • Darparu copïau i unigolion neu sefydliadau eraill sy'n ein helpu i asesu, monitro a gwerthuso grantiau. • Rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda ni gyda diddordeb dilys mewn ceisiadau loteri a grantiau neu raglenni ariannu penodol. • Dal cronfa ddata a'i defnyddio at ddibenion ystadegol. • Os byddwn yn cynnig grant i chi, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth amdanoch sy'n ymwneud â'r gweithgarwch yr ydym wedi'i ariannu, gan gynnwys swm y grant a'r gweithgaredd yr oedd yn ei geisio. Efallai y bydd yr wybodaeth hon yn ymddangos yn ein datganiadau i'r wasg, yn ein cyhoeddiadau print ac ar-lein, ac yng nghyhoeddiadau neu wefannau adrannau perthnasol y Llywodraeth ac unrhyw sefydliadau partner sydd wedi ariannu'r gweithgaredd gyda ni. • Os byddwn yn cynnig grant i chi, byddwch yn cefnogi ein gwaith i ddangos gwerth treftadaeth drwy gyfrannu (pan ofynnir) i weithgareddau cyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod rydym yn darparu cyllid ar gyfer gweithgareddau i rannu dysgu ac yn cymryd rhan ynddynt, a gallwn roi grantïon eraill mewn cysylltiad â chi. Rydym yn cynnal ymchwil ansoddol i ddefnyddwyr i'n helpu i ddatblygu ein cynnyrch a'n gwasanaethau. Gallai hyn fod o arolwg 20 munud i gyfweliad 2 awr.

36. Cyswllt

Efallai y byddwn yn cysylltu â chi o bryd i'w gilydd i roi gwybod i chi am waith Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

37. Cadarnhad

Rwy'n cadarnhau bod y sefydliad a enwir ar y cais yma wedi rhoi'r awdurdod i mi gwblhau'r cais ar ei ran. Rwy'n cadarnhau bod y gweithgaredd yn y cais yn dod o fewn dibenion a phwerau cyfreithiol y sefydliad. Rwy'n cadarnhau bod gan y sefydliad y pŵer i dderbyn y grant a'i ad-dalu. Rwy'n cadarnhau, os bydd y sefydliad yn derbyn grant, y byddwn yn cadw at y telerau grant safonol, ac unrhyw delerau neu amodau pellach fel y'u nodir yn y llythyr hysbysu grant, neu mewn unrhyw gontract a baratoir yn benodol ar gyfer y prosiect. Cadarnhaf, hyd y gwn i, fod y wybodaeth yn y cais yma'n wir ac yn gywir

38. Byddwn yn cysylltu â chi ar ôl i chi gyflwyno'ch ffurflen i ni ac efallai y byddwn yn gofyn am ragor o ddogfennau. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltwch â ni, mae'r manylion yma <https://www.heritagefund.org.uk/cy/article/cysylltwch-ni>

Os oes gennych adborth ar y ffurflen, rhowch wybod i ni yma.